
Cyfres Crefyddau'r Byd Heddiw

# Archwilio Eglwys y Plwyf



## Llawlyfr Athrawon

Cyfres Crefyddau'r Byd Heddiw

# Archwilio'r Eglwys y Plwyf

Leslie J. Francis, Tania ap Siôn
a Diane Drayson.
Darluniau: Phillip Vernon.
Cyfieithiad: Nant Roberts.

Bear Lands Publishing

Yn y Gyfres Crefyddau'r Byd Heddiw, mae Rhys a Sara'n dysgu am brif grefyddau'r byd yn eu gwlad eu hunain. Y saith stori yn y gyfres yw:

- Archwilio Islam
- Archwilio Iddewiaeth
- Archwilio'r Eglwys y Plwyf
- Archwilio'r Eglwys Uniongred
- Archwilio Hindŵaeth
- Archwilio Bwdhaeth
- Archwilio Sikhiaeth

Cyhoeddwyd gyntaf 2009 gan y Ganolfan Genedlaethol
Addysg Grefyddol,
Prifysgol Bangor
(noddwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru).

Ail argraffiad (ar-lein) 2019 gan
Bear Lands Publishing,
Canolfan y Santes Fair,
Llys Onnen,
Abergwyngregyn,
Gwynedd, LL33 0LD, Cymru.

# Archwilio Eglwys y Plwyf

## Y stori

Mae gan Rhys a Sara ddau o ffrindiau Cristnogol yn yr ysgol o'r enw Bethan a Tomos, sy'n eu cyflwyno i gredoau ac ymarferiadau allweddol yr Eglwys Anglicanaidd. Mae mam Bethan a Tomos, Mrs Davies, yn gwasanaethu fel offeiriad Anglicanaidd. Mae'r plant yn archwilio eglwys y plwyf, ac yn dysgu beth sydd yn digwydd pan fydd Bethan a Tomos yn derbyn Cymun am y tro cyntaf. Maen nhw'n dathlu Gŵyl y Nadolig ac yn dysgu am arwyddocâd yr offeren hanner nos ar Noswyl y Nadolig. Mae Rhys a Sara yn dod i wybod am ffynhonnell allweddol Cristnogaeth yn ffurf y Beibl, ac maen nhw'n dysgu am yr Hen Destament a'r Testament Newydd. Maen nhw'n ymchwilio i'r modd y mae Cristnogion yn ymwneud ag addysg ddatblygol trwy astudio gweithgaredd Cymorth Cristnogol ac archwilio cynnyrch masnach deg. Maen nhw'n dysgu am y cyswllt sacramentaidd agos sydd rhwng y byd materol a'r byd ysbrydol mewn dysgeidiaeth Gristnogol, trwy ddathlu gŵyl y cynhaeaf, pryd y byddan nhw'n cysylltu ffrwythau'r ddaear, gwaith dwylo dynol, â'r rhannu sy'n digwydd yn y Cymun.

## Yr elfennau sylfaenol

Yn ystod y Canol Oesoedd roedd Cymru a Lloegr yn rhan o'r Eglwys Gatholig ac yn talu gwrogaeth i'r Pab yn Rhufain. Fel rhan o'r drefn Gatholig, cafodd y wlad gyfan ei rhannu'n blwyfi oedd yn cael eu gwasanaethu gan eglwys y plwyf. Roedd hi'n ddealladwy bod pawb yn perthyn i'w heglwys blwyf ac yn cael hawliau a chyfrifoldebau mewn perthynas â'r weinidogaeth a ddarparwyd ynddi. Pan gafodd yr Eglwys Gatholig ei disodli gan Eglwys Loegr, yn ystod y Diwygiad, fel y grefydd swyddogol a 'sefydledig' yng Nghymru a Lloegr, cymerodd Eglwys Loegr gyfrifoldeb dros eglwysi'r plwyfi. Mae Eglwys Loegr wedi parhau i fod yn grefydd sefydledig yn Lloegr, ond cafodd yr eglwys ei datgysylltu yng Nghymru yn 1920 a'i hailenwi o'r newydd fel yr Eglwys yng Nghymru. Mae'r Eglwys yng Nghymru bellach yn rhan o'r Cymundeb Anglicanaidd byd-eang, sef y teulu hwnnw o eglwysi sydd wedi deillio o Eglwys Loegr.

Mae'r Eglwys Anglicanaidd yn gweld ei hun fel eglwys eang a chynhwysol sydd yn Gatholig yn ogystal â bod yn Ddiwygiedig. Mae'n Gatholig oherwydd ei bod wedi dal at rai o'r credoau a'r ymarferiadau gafodd eu ffurfio yn unol â'r traddodiad Catholig cyn y Diwygiad Protestannaidd, a ddigwyddodd yn ystod y bymthegfed a'r unfed ganrif ar bymtheg. Mae'n Ddiwygiedig oherwydd ei bod yn dal at rai o'r credoau a'r ymarferiadau a gyflwynwyd o ganlyniad i'r Diwygiad Protestannaidd. Yn ystod blynyddoedd cynnar y bedwaredd ganrif ar bymtheg cafodd y ddwy agwedd hyn mewn Anglicaniaeth eu hail bwysleisio a'u mireinio gan y Mudiad Tractariaeth (Catholig) a chan y Mudiad Efengylaidd (Diwygiedig). Mae eglwysi plwyf unigol yn parhau i gael eu ffurfio gan y traddodiadau dargyfeiriol hynny. Mae Bethan a Tomos yn addoli mewn eglwys blwyf sydd wedi ei ffurfio yn unol â'r traddodiad Catholig.

Mae Anglicaniaid yn credu mewn:

- datguddiad triphlyg o Dduw yn Drindod Sanctaidd: Tad, Mab ac Ysbryd Glân;
- awdurdod triphlyg ysgrythur, traddodiad a rheswm;
- gweinidogaeth driphlyg diaconiaid, offeiriaid ac esgobion.

Yn eu hymarferion crefyddol bydd Anglicaniaid yn rhoi sylw arbennig i ddau sacrament canolig (arwyddion allanol o bresenoldeb Duw).

- sacrament y bedydd, sy'n nodi dechrau'r bywyd Cristnogol. Bydd Anglicaniaid yn ymarfer bedydd babanod. Yr arwydd allanol yw dŵr.
- sacrament y cymun, sy'n cynnal y bywyd Cristnogol. Yr arwyddion allanol yw bara a gwin.

# Pennod 1 Ymweld ag Eglwys y plwyf

## Eglwys y plwyf

Ym mhob rhan o Gymru a Lloegr mae eglwys blwyf leol. Caiff y tir ei rannu fel hyn. Mae rhai o'r eglwysi plwyf hyn yn dyddio'n ôl i gyfnod yr Oesoedd Canol. Cafodd llawer ohonyn nhw eu hadeiladu mewn ardaloedd newydd yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg i adlewyrchu'r symudiadau a fu mewn poblogaeth. Yn yr un cyfnod, cafodd rhai o'r hen eglwysi a oedd yn dyddio o'r Oesoedd Canol eu hail godi a'u hail fodelu. Cafodd mwy o eglwysi plwyf eu codi o'r newydd yn ystod yr ugeinfed ganrif i wasanaethu'r datblygiadau anheddol newydd. Pan fydd eglwys y plwyf yn cau (neu'n cael ei rhestru'n ddiangen) bydd yr ardal oedd yn cael ei gwasanaethu gan yr eglwys honno yn dod yn gyfrifoldeb yr eglwys blwyf agosaf ati. Cafodd yr eglwys blwyf y mae Bethan a Tomos yn addoli ynddi ei hadeiladu yn ystod ail hanner y bedwaredd ganrif ar bymtheg mewn arddull Neo-gothig i fod yn debyg i bensaernïaeth eglwys o'r canol oesoedd.

## Gweinidogaeth

Mae'r Eglwys Anglicanaidd yn credu mewn gweinidogaeth driphlyg o ddiaconiaid, offeiriaid ac esgobion. Bydd clerigwyr ran amlaf yn gwasanaethu fel diacon am flwyddyn cyn iddyn nhw gael eu hordeinio'n offeiriad. Fel diaconiaid nid oes hawl ganddyn nhw i lywyddu yng ngwasanaeth y cymun, nac ychwaith i gyhoeddi maddeuant pechodau, ac nid oes hawl ganddyn nhw i ddatgan bendith Duw. Mae rhai esgobaethau yn hyrwyddo'r ddiaconiaeth barhaol ar gyfer y rhai hynny sydd yn dymuno gwasanaethu am oes fel diacon.

Gall offeiriaid gymryd cyfrifoldeb am blwyfi lleol fel ficeriaid, rheithoriaid, neu fel offeiriaid â gofal. Maen nhw'n cael eu penodi a'u trwyddedu i'w gwaith gan Esgob yr esgobaeth lle maen nhw'n gweinidogaethu. Yn yr Eglwys yng Nghymru mae chwe Esgobaeth ac Esgob ar bob un ohonyn nhw (Esgobaeth Bangor, Llandaf, Mynwy, Llanelwy, Tyddewi ac Abertawe ac Aberhonddu). Bydd pob Esgob wedi gwasanaethu fel offeiriad i ddechrau (fel rheol am nifer dda o flynyddoedd). Bydd cael ei gysegru yn rhoi hawl i Esgob weinyddu dau sacrament ychwanegol: Bedydd Esgob (Conffyrmasiwn) pryd y bydd y sawl gafodd ei fedyddio pan yn faban yn cadarnhau ei addewidion, ac Ordinasiwn (ordeinio diaconiaid ac offeiriaid).

## Merched yn y weinidogaeth

Am flynyddoedd lawer, yn yr Eglwys Anglicanaidd, dim ond dynion oedd yn cael eu cydnabod fel rhai a allai weinidogaethu yn y weinidogaeth ordeiniedig. Bellach mae'r penderfyniad i ordeinio merched yn cael ei gymryd yn annibynnol gan y gwahanol daleithiau yn yr Eglwys Anglicanaidd. Penderfynodd yr Eglwys yng Nghymru ordeinio merched yn ddiaconiaid yn y flwyddyn 1980, a gwnaeth Eglwys Loegr yr un modd yn 1987. Yn 1994, cafodd merched eu hordeinio'n offeiriaid am y tro cyntaf yn Eglwys Loegr, ac am y tro cyntaf yn yr Eglwys yng Nghymru yn 1997. Mae'r mater o gysegru merched yn esgobion yn parhau i gael ei drafod yng Nghymru a Lloegr. Cafodd merched eu cysegru'n esgobion mewn taleithiau eraill o'r Cymundeb Anglicanaidd, yn cynnwys Seland Newydd ac Unol Daleithiau America, er na chaiff yr esgobion hyn o ferched yr hawl i ymarfer eu gweinidogaeth esgobol mewn taleithiau sydd hyd yn hyn heb gytuno i gysegru merched yn esgobion.

## Gwisg glerigol

Bydd clerigwyr Anglicanaidd (diaconiaid, offeiriaid ac esgobion), fel clerigwyr yr Eglwys Gatholig a llawer o weinidogion yr Eglwysi Rhyddion, yn dewis gwisgo'r goler gron wen fel arwydd nodedig o'u gweinidogaeth. Yn draddodiadol cafodd y goler glerigol hon ei gwisgo â chrys du, ond erbyn heddiw mae amrywiaeth eang o grysau lliw hefyd yn cael eu caniatáu. Gall Esgobion ddewis gwisgo crys o liw porffor fel symbol o'r swydd neilltuol sydd ganddyn nhw. Fe gaiff y gasog laes ddu ei gwisgo ar achlysuron mwy ffurfiol, er y daeth yn llai a llai ffasiynol i weld clerigwyr Anglicanaidd yn cerdded o gwmpas eu plwyf wedi eu gwisgo mewn casog.

Pan fydd hi'n llywyddu mewn gwasanaeth Cymun, bydd Mrs Davies yn dewis gwisgo casul. Mae'r casul yn wisg nodedig iawn, sy'n cael ei gwisgo gan offeiriaid ar gyfer y gwasanaeth Cymun. Bydd offeiriaid Catholig yn gwisgo casul hefyd, felly gwelwn fod Eglwys Mrs Davies wedi cael ei dylanwadu gan y Mudiad Tractariaeth. O dan y casul bydd Mrs Davies yn gwisgo gwisg wen laes o'r enw alb, a sgarff cul o'r enw stola. Daw'r stola a'r casul yn y pedwar prif liw sylfaenol, sy'n arwyddo'r gwahanol dymhorau yn y flwyddyn eglwysig. Gwyrdd yw'r lliw sylfaenol sydd yn cael ei wisgo'n fwyaf rheolaidd. Defnyddir gwyn ar gyfer y prif wyliau fel y Nadolig a'r Pasg, fel arwydd o ddathliad. Defnyddir y lliw porffor yn ystod yr Adfent a'r Garwys fel arwydd o benyd. Defnyddir coch ar wyliau sy'n gysylltiedig â'r Ysbryd Glân (Pentecost/Sulgwyn) neu i ddathlu coffadwriaeth am ferthyron.

## Y Gwasanaeth Cymun

Mae i'r gwasanaeth cymun le canolog mewn addoliad Anglicanaidd. Mae'r gwasanaeth cymun yn ail-greu'r Swper Olaf a ddathlodd Iesu gyda'i ddisgyblion cyn ei groeshoeliad a'i farwolaeth. Yn ystod y Swper Olaf hwnnw cymerodd Iesu fara, a chan roi diolch, fe'i torrodd a'i rannu ymysg ei ddisgyblion. Fe

ddywedodd, "Hwn yw fy nghorff." Yna cymerodd Iesu'r cwpan o win, a chan ddiolch, fe'i rhannodd ymysg ei ddisgyblion. Fe ddywedodd, 'Dyma fy ngwaed.'

### Derbyn y Cymun

Yn draddodiadol yn yr Eglwys Anglicanaidd, fe fyddai pobl yn cael eu bedyddio yn fabanod ac yna fe fydden nhw'n cadarnhau eu haddewidion bedydd eu hunain ar ôl iddyn nhw dyfu i fyny ac aeddfedu. Yn draddodiadol, dim ond y rhai hynny fyddai wedi cael eu conffyrmio a fyddai'n derbyn gwahoddiad i gymuno. Yn gynyddol y dyddiau hyn mae pobl ifanc yn cael eu gwahodd i dderbyn cymun cyn conffyrmasiwn, ond dim ond ar ôl cyfnod o baratoad a hyfforddiant pwrpasol. Mae oedran y rhai sy'n cael eu derbyn i gymuno cyn conffyrmasiwn yn amrywio o un plwyf i'r llall.

Yn yr astudiaeth hon, mae Bethan a Tomos yn derbyn cymun am y tro cyntaf. Daw Rhys a Sara i rannu'r achlysur pwysig hwn gyda nhw. Fel y bobl eraill (oedolion yn ogystal â phlant), sydd heb gael eu conffyrmio na heb ymrwymo eu hunain i dderbyn hyfforddiant pwrpasol, nid yw Rhys a Sara yn derbyn cymun, ond maen nhw'n derbyn bendith arbennig pan fydd yr offeiriad yn gosod ei dwylo ar eu pennau.

### Cynorthwywyr

Yn y gwasanaeth hwn mae pedwar o bobl, sydd wedi ymwisgo, yn helpu Mrs Davies. Mae'r croes gludydd yn arwain yr orymdaith trwy gario'r groes. Mae dau was allor yn dilyn, ac yn cario canhwyllau. Mae'r gweision allor yn helpu Mrs Davies nifer o weithiau yn ystod y gwasanaeth. Mae'r Darllenydd Lleyg yn traddodi'r bregeth ac yn helpu gyda gweinyddu'r cymun. Lleygwyr yw'r Darllenwyr, sydd wedi derbyn hyfforddiant a'u trwyddedu i bregethu. Maen nhw'n gwisgo sgarff glas yn arwydd o'u swydd.

## Gweithgareddau

***Cymysgu a matsio***

Torrwch allan y naw bocs sydd ar y daflen waith 'Ysgrifennu Stori', ac yna torrwch bob bocs yn dri darn: y pennawd, y wybodaeth a'r llun. Cymysgwch yr holl rannau a'u rhoi mewn amlen. Rhannwch y plant yn barau neu grwpiau gan roi amlen i bob grŵp neu bâr. Bydd gofyn i'r plant fatsio'r pennawd, y wybodaeth a'r llun yn gywir.

Gwnewch y gwaith ar y daflen 'Ysgrifennu Stori', (fe allech chi addasu'r stori fel y mynnwch chi i unrhyw genre, fel dyddiadur neu erthygl bapur newydd).

***Ymweld ag Eglwys y Plwyf***

Ewch i ymweld ag Eglwys y Plwyf, a chwiliwch am y mannau sy'n cael eu nodi yn y stori. Beth sy'n wahanol yno i beth sydd yn y llyfr, a beth sydd yr un fath?

***Y Gwasanaeth Cymun***

Edrychwch yn ofalus ar y geiriau sy'n cael eu dweud wrth Tomos a Bethan yn y stori, pan fyddan nhw'n derbyn y bara a'r gwin - 'Corff Crist' a 'Gwaed Crist'. Mae'r ddefod hon yn mynd yn ôl 2,000 o flynyddoedd, i amser Iesu, ac mae wedi cael ei hailadrodd gan genedlaethau o Gristnogion ers hynny. Darllenwch stori'r Swper Olaf i'r plant, allan o Feibl i blant. Nodwch yn ofalus y geiriau y mae Iesu'n eu dweud a'r pethau mae'n eu gwneud. Fe rannodd Iesu'r pryd bwyd arbennig yma gyda'i ddeuddeg disgybl (y Cristnogion cyntaf), a heddiw mae Cristnogion yn rhannu pryd bwyd tebyg gyda'i gilydd. Maen nhw'n diolch i Dduw am gael Iesu'n rhodd, a phan fyddan nhw'n rhannu'r pryd bwyd arbennig yma, fe fyddan nhw'n credu bod Iesu'n bresennol gyda nhw.

Gwnewch y gwaith ar y daflen 'Gwneud set lestri cymun'. Gofynnwch i'r plant feddwl yn ofalus am eiriau priodol i'w hysgrifennu ar stribed cul o bapur lliw aur, y byddai'n bosib ei ludio wedyn oddi amgylch ymyl y gwpan ac ar y plât. Fe ddylai'r geiriau helpu i atgoffa pobl am ystyr y cymun i Gristnogion.

***Gwisgo at y pwrpas***

Trafodwch beth yw pwrpas gwisg ysgol a gwisgoedd arbennig eraill (gwisg timau pêl-droed neu rygbi, karate neu jiwdo, gwisg pobl sy'n gweithio i'r gwasanaethau brys, yr heddlu, y fyddin, ac ati). Fel arfer, mae iwnifform yn dangos eich bod yn perthyn i grŵp neilltuol neu fod gennych chi waith neilltuol i'w wneud. Yn aml hefyd, mae'r wisg yn ymarferol, er enghraifft fe fyddai gwisg jiwdo wedi'i gwneud o ddefnydd cryf rhag iddi rwygo oherwydd natur y chwaraeon, ac mae hefyd yn llac i roi rhyddid i'r un sy'n ei gwisgo wrth iddo symud.

Gwnewch y gwaith ar y daflen 'Gwisgo am Mrs Davies'. Wrth ei gwaith, fel offeiriad, mae hi'n gwisgo dillad gwahanol ar gyfer gwahanol achlysuron. Archwiliwch pa liwiau sy'n cael eu gwisgo ar gyfer gwahanol adegau ym mlwyddyn yr Eglwys (gwelwch y nodiadau i athrawon).

Edrychwch ar ddillad Mrs Davies mewn perthynas â'r gwaith wnaethoch chi ar wisgo iwnifform. Nodwch beth yw pwrpas y dillad y mae Mrs Davies yn eu gwisgo.

# Pennod 2 Offeren hanner nos ar Noswyl y Nadolig

### Dathlu'r Nadolig

Mae'r Nadolig wedi dod yn un o'r prif wyliau, ac yn adeg o ddathlu, i'r rhan fwyaf o bobl sy'n byw yng Nghymru a Lloegr, ac nid yn unig bellach yn Ŵyl ar gyfer Cristnogion. O ganlyniad, mae llawer o eglwysi plwyf wedi mabwysiadu ffyrdd o allu cadw'r Nadolig wrth geisio dygymod â'r holl ddathlu sy'n digwydd o'u cwmpas.

Yn draddodiadol bydd yr eglwysi plwyf, o bosib, wedi cadw'r cyfnod o bedair wythnos, cyfnod yr Adfent, fel paratoad dwys ar gyfer y Nadolig. Trwy'r Adfent ni fydd blodau yn cael eu gosod yn yr eglwys; y lliw amlwg yw porffor, ac ni fydd yr un garol wedi cael ei chanu cyn yr offeren hanner nos ar noswyl y Nadolig. Bydd cyfnod fel hyn o baratoad yn golygu y byddai gwychder y gwasanaeth hanner nos yn fwy o ryfeddod fyth.

Hyd yn oed heb y paratoadau dwys yn yr Adfent, mae cymun cyntaf y Nadolig (yr offeren hanner nos) yn parhau i fod yn achlysur o bwys mewn sawl eglwys blwyf. Yn awr, a hwythau yn ddigon hen i aros ar eu traed yn hwyr, roedd Rhys a Sara yn edrych ymlaen yn eiddgar at gael bod yn rhan yn eu gwasanaeth hanner nos cyntaf a chael mynd i'r eglwys gyda'u ffrindiau Bethan a Tomos.

### Canu clychau

Cafodd llawer o eglwysi plwyf eu hadeiladu gyda thyrau oedd yn gallu cynnal clychau. Un neu ddwy o glychau yn unig sydd gan rai eglwysi, a bydd y rheini yn cael eu canu i roi gwybod i bobl bod gwasanaeth ar fin cychwyn. Mae nifer o glychau gan eglwysi eraill. Mae cnul chwech o glychau yn dda ac yn arbennig. Caiff pob cloch ei thiwnio i wneud sŵn nodyn neilltuol, a bydd angen iddi gael ei chanwr ei hun.

Dull syml o ddefnyddio set o chwe chloch yw eu canu mewn cylch gyda dilyniant syml o nodau yn cael eu canu o'r traw uchaf i'r traw isaf mewn trefn, ac yna'r cyfan yn cael ei ailadrodd dro ar ôl tro. Y traddodiad llawer mwy cymhleth yng Nghymru a Lloegr yw hwnnw sy'n adnabyddus fel canu newidiol, pryd y bydd y drefn yn newid yn unol â phatrwm cymhleth. Er mwyn canu clychau yn unol â'r dull newidiol mae angen sgil arbennig, llawer o ymarfer a chanolbwyntio pendant.

Mae clywed cnul clychau'n cael eu canu yn null canu newidiol dros awyr glir noswaith o aeaf yn un o synau arbennig sy'n perthyn i dymor y Nadolig.

### Carolau Nadolig

Mae carolau Nadolig yn cwmpasu ystod eang o wahanol themâu, traddodiadau ac awyrgylch. Mae'r tair carol y mae Rhys a Sara yn eu hadnabod yn garolau adnabyddus nid yn unig mewn eglwysi ond mewn ysgolion ac ar y radio a'r teledu. 'I orwedd mewn preseb', 'Dawel nos', a 'Wele yn y preseb tlawd'. Mae geiriau llawn ar gyfer y carolau hyn i'w cael mewn llawer o wahanol lyfrau.

### Yr offeren hanner nos

Fel arfer bydd yr offeren hanner nos yn dechrau ychydig cyn hanner nos fel bo'r gwasanaeth wedi cychwyn pan fydd bysedd y cloc yn cyrraedd hanner nos. Bydd yr offeiriad sy'n llywyddu'r Ewcharist yn gwisgo casul gwyn (neu aur) yn arwydd bod hwn yn ddathliad mawr ym mlwyddyn yr Eglwys. Yn y gwasanaeth bydd darlleniadau arbennig o'r Beibl i nodi geni'r Iesu. Yn aml y darlleniad o'r Efengyl fydd hwnnw o Efengyl Ioan, pennod 1: 1 -14, sy'n cychwyn gyda'r adnod. 'Yn y dechreuad yr oedd y Gair. Yr oedd y Gair gyda Duw'.

Gweddi arbennig yw'r colect sy'n crynhoi thema'r gwasanaeth. Bydd Mrs Davies yn defnyddio'r colect hwnnw yn syth ar ôl bendithio Crud y Nadolig.

### Stori'r Nadolig

Tu mewn i eglwys y plwyf edrychodd Rhys a Sara ar stori'r Nadolig fel yr oedd hi wedi cael ei hadrodd gan ddisgyblion o'r ysgolion lleol ar ffurf murluniau mawr o gwmpas y waliau. Dyma ffordd ragorol i adeiladu cysylltiadau gwerthfawr rhwng ysgolion lleol ag eglwys y plwyf ar adeg y Nadolig.

Mae stori'r Nadolig wedi ei gwreiddio yn nwy o'r pedair Efengyl sydd wedi eu cynnwys yn y Testament Newydd. Nid oes unrhyw sôn o gwbl am eni Iesu yn Efengyl Marc (sydd yn cael ei chydnabod yn gyffredinol fel y gynharaf o'r Pedair Efengyl). Mae'n ymddangos bod Efengyl Mathew ac Efengyl Luc wedi ychwanegu deunydd arall at yr hyn yr oedden nhw wedi ei ddysgu gan Marc, ac wedi gwneud hynny o wahanol ffynonellau. Mae Mathew a Luc yn cynnwys storïau am enedigaeth Iesu, ond mae'r naill a'r llall yn adrodd y stori o safbwyntiau gwahanol.

Mae Luc yn gosod ei stori mewn awyrgylch a ffurfiwyd gan ddelweddaeth a barddoniaeth yr Hen Destament. Mae Luc yn cychwyn gyda genedigaeth Ioan Fedyddiwr, a oedd yn rhagflaenydd i Iesu. Yna mae Luc yn cyflwyno genedigaeth Iesu. Yn ôl Luc, fe ymddangosodd yr Angel Gabriel gerbron Mair a dweud wrthi y byddai nerth yr Ysbryd Glân yn ei chysgodi, ac y byddai'n beichiogi ac yn esgor ar fachgen a fyddai'n cael ei alw'n Iesu. Yn ôl Luc, roedd Mair wedi dyweddïo â Joseff. Roedd Joseff yn un o ddisgynyddion y brenin pwysig, Brenin Dafydd, a gallai olrhain ei wreiddiau i Fethlehem. Yn ystod y cyfnod hwnnw yr oedd y wlad wedi ei meddiannu gan fyddinoedd y Rhufeiniaid a gorfodwyd Joseff i deithio i Fethlehem, gan fynd â Mair gydag ef, er

mwyn cofrestru a chael ei drethu gan y swyddogion Rhufeinig. Ym Methlehem roedd pob llety'n llawn, a bu raid i Mair a Joseff letya mewn stabl. Yno yn y stabl y cafodd Iesu ei eni, a phreseb yr anifeiliaid oedd ei wely.

Yn ôl Luc côr o angylion o'r nef wnaeth gyhoeddi genedigaeth Iesu i'r bugeiliaid a oedd yn gwylio eu praidd o ddefaid yn y caeau cyfagos. Daeth y bugeiliaid i dalu gwrogaeth i'r baban newydd anedig.

Mae Mathew yn gosod ei stori mewn cysyniad gwahanol. Mathew sy'n dweud hanes y sêr-ddewiniaid (magi), a oedd wedi dilyn seren i ddarganfod lle cafodd Iesu ei eni. Nid yw Mathew yn nodi nifer y doethion a deithiodd i Fethlehem, ond mae'n eu cysylltu â'r tair anrheg y gwnaethon nhw'u cyflwyno i Iesu: aur, thus a myrr.

## Gweithgareddau

***Meddwl am gardiau Nadolig***

Casglwch ynghyd amrywiaeth o wahanol gardiau Nadolig (e.e. rhai sy'n amlwg grefyddol, rhai â lluniau Siôn Corn arnyn nhw, golygfeydd yn yr eira, lluniau anifeiliaid ac adar, pobl a phlant yn canu carolau, coed Nadolig, a golygfeydd hen-ffasiwn, ac ati). Rhannwch y plant yn grwpiau a gofynnwch iddyn nhw edrych yn fanwl ar y cardiau. Tasg:

- Beth yw'r gwahanol fathau o gardiau? Dosbarthwch y cardiau'n bentyrrau yn ôl eu math.

Mae'n bosib eu dosbarthu mewn nifer o ffyrdd, does dim ateb cywir neu anghywir yma. Arwydd o set dda o gategorïau yw pan fydd y rhan fwyaf o'r cardiau â rhywfaint o le o fewn y set oherwydd bod y themâu amlwg pwysicaf wedi'u nodi. Weithiau, efallai y bydd yn rhaid defnyddio categori 'amrywiol', ond gofalwch nad yw'r categori hwnnw'n mynd yn rhy fawr.

Bydd Cristnogion yn aml yn anfon cardiau sydd â thema Gristnogol iddyn nhw. Gwnewch y gwaith ar y daflen 'Gwneud cerdyn sy'n codi allan' gan ddewis lluniau priodol ar gyfer marchnad Gristnogol

***Gwyliau ledled traddodiadau crefyddol***

Gweithiwch ar galendr neu lyfr o wahanol wyliau'r hollgrefyddau. Fe fyddai gofyn i hwn fod ar ffurf ffeil lle gallwch chi ychwanegu tudalennau, fel byddwch chi angen, i'w gael mewn trefn gronolegol. Siaradwch am ba mor bwysig yw trefnu'r deunydd fel y gall pobl ddod o hyd i'r wybodaeth y byddan nhw'i hangen, yn gyflym. Gyda'r plant, penderfynwch ar drefn ddefnyddiol i'r llyfr, er enghraifft, fe allai penawdau adrannau fod yn ymwneud â phethau fel: storïau, sut y caiff yr wyl ei dathlu heddiw, resipis, ac ati.

***Ystyr y Nadolig***

Heddiw, mae'r Nadolig yn golygu gwahanol bethau i wahanol bobl. Gwnewch arolwg syml ymysg plant Cyfnod Allweddol 2, i ddarganfod beth mae'r Nadolig yn ei olygu i blant eich ysgol chi. Gofynnwch i'r plant orffen un o'r brawddegau canlynol:

I mi, y peth pwysicaf am y Nadolig yw ...

NEU

Dydi'r Nadolig ddim yn bwysig i mi, oherwydd ...

Ar ôl gwneud yr arolwg, meddyliwch am gategorïau y gallech chi roi'r ymatebion i'r frawddeg gyntaf ynddyn nhw. Gallech labelu'r categorïau hyn (fel cael anrhegion, bwyta a gwledda, geni Iesu, partïon Nadolig, etc.) neu eu dosbarthu'n fwy cyffredinol (fel rhesymau crefyddol a rhesymau sydd heb gysylltiad crefyddol). Gwnewch yr un peth gyda'r ail gwestiwn.

Edrychwch faint o ymatebion sydd ym mhob categori a dangoswch y canlyniadau mewn nifer o wahanol fformatau; er enghraifft, tabl rhifol, siâr bar, neu siart cylch.

Fe fyddai'n bosib defnyddio canlyniadau'r arolwg fel rhan o wasanaeth yn yr ysgol a fyddai'n ymwneud ag ystyr y Nadolig i bobl ifanc heddiw. Pe byddech chi'n awyddus i gael mwy o ymatebion, fe allech chi hefyd ofyn i blant Cyfnod Allweddol 2, mewn ysgolion cyfagos, wneud yr un arolwg hefyd a rhannu'r canlyniadau â nhw. Fe fyddai'n bosib gwneud yr arolwg yn fwy cymhleth trwy ychwanegu meysydd ychwanegol fel gwryw a benyw, a Christnogion a phobl sydd heb fod yn Gristnogion.

Yn y llyfr stori, mae Rhys a Sara yn dysgu nad yw gwir ystyr y Nadolig i Gristnogion i'w weld yn y cardiau Nadolig sydd â llun robin neu gelyn, neu olygfeydd hen-ffasiwn yn yr eira, arnyn nhw. Mae i'w weld yn y cardiau sy'n darlunio stori geni Iesu.

Gwnewch y gwaith ar y daflen 'Adrodd Stori'r Nadolig' am enedigaeth Iesu, ac archwiliwch ei arwyddocâd Cristnogol.

***Seiniau'r Nadolig***

Beth yw'r seiniau cerddorol yn y stori sy'n ymwneud â'r Nadolig? (clychau'r eglwys a chanu carolau).

Pa seiniau eraill y bydd y plant yn eu cysylltu â'r Nadolig? (clychau sled Siôn Corn, rhwygo papur lapio, tawelwch y plu eira'n disgyn, coed tân yn clecian yn y grât, chwerthin hapus, ac ati.)

Gan ddefnyddio'r seiniau rydych chi wedi'u dewis, cyfansoddwch, perfformiwch a recordiwch ddarn o gerddoriaeth o'r enw 'Seiniau'r Nadolig'.

# Pennod 3 Defnyddio'r Beibl

**Beth yw'r Beibl?**

Casgliad o lyfrau yw'r Beibl, sydd o bwysigrwydd neilltuol i Gristnogion. Mae i'r rhan fwyaf o Feiblau o leiaf ddwy ran. Yr Hen Destament yw'r rhan gyntaf, sef casgliad o 39 llyfr. Cafodd pob un o'r llyfrau hyn eu hysgrifennu cyn geni Iesu, ac mae Cristnogion yn credu eu bod yn dangos beth oedd bwriadau Duw, a gafodd eu dadlennu yng ngenedigaeth Iesu. Mae'r ail ran, sy'n gasgliad o 27 llyfr, yn rhoi i ni'r Testament Newydd. Cafodd y llyfrau hyn i gyd eu hysgrifennu yn ystod blynyddoedd cynnar yr Eglwys Gristnogol, ac mae Cristnogion yn credu eu bod yn amlygu dibenion Duw ar gyfer y byd heddiw. Mae rhai Beiblau yn cynnwys trydedd ran, sydd wedi ei chyhoeddi rhwng yr Hen Destament a'r Testament Newydd, sy'n cael ei alw'n Apocryffa.

**Sut y mae'r Beibl yn cael ei ddefnyddio?**

Mae'r Beibl yn gyffredinol yn cael ei weld gan Gristnogion fel ffynhonnell o awdurdod, ond mae'r ystyr hynny'n amrywio o'r naill berson i'r llall. Y farn geidwadol yw mai Gair Duw yw'r Beibl, mewn ystyr eithaf llythrennol. Bydd rhai Cristnogion ceidwadol yn barod i dderbyn stori'r creu fel y mae'n cael ei hadrodd ym mhenodau cyntaf Genesis, fel disgrifiad llythrennol o sut y cafodd y byd ei greu mewn chwe diwrnod. O ganlyniad, fe wnaethon nhw wrthod y ddamcaniaeth wyddonol o esblygiad. Mae barn ryddfrydol yn datgan bod y Beibl wedi ei ysbrydoli gan Dduw mewn ffyrdd neilltuol, ond mae'r farn honno yn gwrthod y syniad bod yn ofynnol dilyn y testun yn llythrennol. Mae rhai Cristnogion rhyddfrydol yn derbyn stori'r creu yn Genesis fel modd i ddangos nid sut y cafodd y byd ei greu, ond pam y creodd Duw y byd.

Mae'n ymddangos bod Mrs Davies, yr offeiriad yn Eglwys Dewi Sant, yn Anglican rhyddfrydol. Fel Anglican mae hi wedi ei hymrwymo i dair ffynhonnell o awdurdod: Y Beibl; traddodiad yr eglwys; a'r rheswm dynol. Fel rhyddfrydwraig mae hi'n rhoi cryn bwyslais ar sut y mae'r Beibl yn cael ei ddefnyddio yn Litwrgi'r eglwys. Mae'r neges roddodd hi i Bethan a Tomos, a ysgrifennodd tu mewn i gloriau eu Beiblau, yn bwysig iawn. Fe ysgrifennodd, 'Plentyn Duw wyt ti, a'i air a'i sacrament sy'n dy gefnogi', ac mae hyn yn eu hatgoffa bod y Beibl i'w ddefnyddio ochr yn ochr â thraddodiadau a sacramentau'r eglwys.

**Defnyddio'r Beibl yn yr Eglwys**

Pan wnaeth Rhys a Sara ymweld ag eglwys y plwyf, fe welson nhw'r eryr pres gloyw lle rhoddir y Beibl. Darllenfa yw'r enw arno. Mae'r eryr yn symbol o'r modd y caiff Gair Duw ei gario drwy'r byd.

Pan fu Rhys a Sara yn y gwasanaeth yn eglwys y plwyf, fe wnaethon nhw weld a chlywed sut y mae'r Beibl yn cael ei ddefnyddio mewn addoliad Anglicanaidd. Yn y gwasanaeth cymun ar fore'r Sul, yn draddodiadol, fe fydd tri darlleniad yn cael eu defnyddio. Bydd y darlleniad cyntaf o'r Hen Destament. Bydd yr ail ddarlleniad o'r Testament Newydd, ond nid o un o'r pedair Efengyl, sef y llyfrau cyntaf yn y Testament Newydd. Bydd y naill ddarlleniad a'r llall, o'r Beibl, yn cael eu darllen gan aelodau o'r gynulleidfa, a fydd yn cerdded at y ddarllenfa o'u seddi. Ar ddiwedd y naill ddarlleniad a'r llall, bydd y darllenydd yn datgan, 'Dyma Air yr Arglwydd', a bydd y bobl yn ymateb trwy ddweud, 'Diolch a fo i Dduw.'

Bydd y trydydd darlleniad yn cael ei drin yn wahanol, ac mae'n ymddangos ei fod yn bwysicach. Bydd y darlleniad hwn bob amser yn dod o un o'r pedair Efengyl (Mathew, Marc, Luc neu Ioan), sef y llyfrau hynny sy'n ymwneud â bywyd, dysgeidiaeth a gwaith Iesu. Fel arfer, fe fydd y darlleniad o'r Efengyl yn cael ei ddarllen gan yr offeiriad. Yn yr eglwys blwyf hon, sydd wedi ei dylanwadu gan y traddodiad Eingl Gatholig, roedd y croes gludydd yn cario'r Beibl o'r ddarllenfa i ganol yr eglwys. Cusanodd Mrs Davies y Beibl cyn iddi ddarllen yr Efengyl. Daliodd y ddau acolit eu canhwyllau'n uchel tra roedd yr Efengyl yn cael ei darllen. Ar ddiwedd y darlleniad o'r Efengyl dywedodd Mrs Davies, 'Dyma Efengyl yr Arglwydd', ac ymatebodd y bobl trwy ddweud, 'Moliant i Grist ein Harglwydd'.

**Penderfynu beth i'w ddarllen**

Mae'r Eglwys Anglicanaidd yn dilyn patrwm sefydlog o ddarlleniadau o'r Beibl sydd wedi ei osod ar gyfer pob gwasanaeth yn y flwyddyn. Mae'r patrwm wedi ei osod yn y Llithiadur. Er bod sawl llithiadur gwahanol yn cael eu defnyddio ar hyn o bryd, yr un pwysicaf yw'r un sy'n cael ei alw'n Llithiadur Cyffredinol Diwygiedig, sy'n cynnig cylch o dair blynedd, fel bo'r un darlleniadau yn ymddangos bob tair blynedd. Mae'r eglwys y mae Bethan a Tomos yn perthyn iddi yn defnyddio'r llithiadur hwn sy'n cael ei rannu nid yn unig gyda'r eglwysi Anglicanaidd drwy'r byd ond hefyd gydag eglwysi eraill, yn cynnwys yr Eglwys Gatholig.

**Cyfieithu'r Beibl**

Cafodd llyfrau'r Hen Destament eu hysgrifennu mewn Hebraeg, a llyfrau'r Testament Newydd eu hysgrifennu mewn Groeg. Mae'r llyfrau hyn wedi cael eu cyfieithu'n awr i lawer o ieithoedd. Hefyd, mae nifer o gyfieithiadau gwahanol yn Saesneg a Chymraeg. Mae rhai ohonyn nhw mewn arddull Saesneg hen ffasiwn, fel fersiwn enwog y Brenin Iago (sydd hefyd yn cael ei adnabod fel y Fersiwn

Awdurdodedig). Mae rhai cyfieithiadau mewn Saesneg modern erbyn hyn. Cafodd y Beibl ei gyfieithu i'r Gymraeg yn !588, ac ers hynny cafwyd sawl fersiwn diwygiedig ohono.

**Grwpiau Astudio'r Beibl**

Ar y rhan fwyaf o nosweithiau Mawrth bydd wyth neu naw o bobl yn dod i dŷ Bethan a Tomos ar gyfer y Grŵp Astudio'r Beibl. Mae llawer o eglwysi Cristnogol yn cynnal grwpiau fel hyn i roi'r cyfle i bobl ddysgu mwy am destun y Beibl ac i archwilio sut y mae'n rhyngweithio gyda'u bywydau a chael dylanwad arno. Maen nhw hefyd yn gallu gadael i'r testun i ysgogi cyfnod o fyfyrdod distaw, gweddi agored, a moliant.

**Clybiau Plant**

Ar ôl ysgol ar y rhan fwyaf o ddyddiau Iau bydd y plant o'r ysgol yn dod draw i dŷ Bethan a Tomos ar gyfer y Clwb. Mae llawer o eglwysi Cristnogol yn trefnu clybiau fel hyn er mwyn rhoi'r cyfle i'r plant baratoi ar gyfer gwasanaeth y Sul. Bydd modd iddyn nhw glywed un o'r darlleniadau fydd yn cael ei ddefnyddio yn y gwasanaeth a gwneud posteri neu fodelau i'w harddangos yn yr eglwys. Mae modd iddyn nhw ddarparu caneuon, drama neu ddawns ar thema'r darlleniad i'w rhannu yn y gwasanaeth.

## Gweithgareddau

***Dangos bod rhywbeth yn arbennig***

Pan fydd rhywbeth yn arbennig yn ein golwg, rydym yn dangos ei fod yn arbennig trwy'r ffordd yr ydym yn ei drin. Gyda'r plant, archwiliwch rai o'u pethau arbennig nhw. Sut maen nhw'n dangos bod y pethau hyn yn arbennig trwy'r ffordd y maen nhw'n eu trin?

Mae'r Beibl yn llyfr arbennig i Gristnogion ac mae iddo le arbennig mewn sawl gwasanaeth Cristnogol, er bod hynny'n cael ei ddangos mewn gwahanol ffyrdd gan wahanol enwadau. Yn eglwys Tomos a Bethan, maen nhw'n gwneud nifer o bethau sy'n dangos bod y Beibl yn arbennig iddyn nhw. Darllenwch dudalennau 14-17 yn y llyfr stori yn ofalus ac edrychwch ar y lluniau. Sut mae'r Cristnogion hyn yn dangos bod y Beibl yn arbennig trwy'r ffordd y maen nhw'n ei drin?

***Mathau gwahanol o lyfrau***

Mae llawer math gwahanol o lyfrau, sydd wedi'u hysgrifennu at wahanol bwrpasau. Rhannwch y plant yn grwpiau, a rhowch i bob grŵp gasgliad o lyfrau amrywiol o lyfrgell y dosbarth neu'r ysgol (bydd angen cynnwys amrywiaeth o ran genre a phynciau). Gofynnwch i bob grŵp ddosbarthu'r llyfrau yn llythrennol yn ôl yr hyn, ym marn y grŵp, sy'n wahanol fathau o lyfrau. Bydd angen i'r plant allu egluro sut maen nhw wedi dosbarthu'r llyfrau.

Cysylltwch hyn â'r Beibl Cristnogol. Llyfr crefyddol i Gristnogion yw'r Beibl, sy'n eu haddysgu am Dduw ac am berthynas Duw â'r byd. Mae'r Beibl yn gasgliad o wahanol fathau o lyfrau gan wahanol awduron (er enghraifft, llyfrau'r gyfraith, llyfrau 'hanes', cerddi, llythyrau a storïau). Enghraifft o farddoniaeth yw'r Salmau, yn yr Hen Destament. Gwnewch y gwaith ar y daflen ' creu Salm o Foliant'. Beth ydych chi'n feddwl y mae Salm 104 yn ei ddweud wrth Gristnogion am Dduw?

# Pennod 4 Cymorth Cristnogol

Mae nifer o sefydliadau ac elusennau wedi eu sefydlu i geisio gwella amodau byw pobl eraill a chefnogi'r amgylchfyd. Yn y bennod hon mae Rhys a Sara yn cael eu cyflwyno i Ganolfannau Addysg Ddatblygol, Cymorth Cristnogol, Oxfam a Masnach Deg, ac maen nhw'n dysgu sut y mae gwaith Cymorth Cristnogol yn fynegiant ymarferol o ddysgeidiaeth Gristnogol.

**Canolfannau Addysg Ddatblygol**

Yn gyffredinol, sefydliadau annibynnol yw Canolfannau Addysg Ddatblygol a sefydlwyd i hybu dealltwriaeth am faterion fel dinasyddiaeth fyd-eang a datblygiad cynaliadwy. Caiff y Canolfannau hyn eu cefnogi gan brif Asiantaethau Datblygu (sefydliadau heb gyswllt â'r llywodraeth) fel Cymorth Cristnogol ac Oxfam, ynghyd â'r Adran ar gyfer Datblygiad Rhyngwladol (sydd yn un o asiantaethau'r llywodraeth).

**Cymorth Cristnogol**

Sefydlwyd Cymorth Cristnogol yn 1945 gan eglwysi yn y D.U. ac Iwerddon, fel ymateb ymarferol i anghenion y rhai hynny yn Ewrop oedd â'u bywydau wedi eu heffeithio'n ddifrifol gan yr Ail Ryfel Byd. Heddiw, mae Cymorth Cristnogol yn ymwneud â nifer o brosiectau sy'n ceisio ymateb i anghenion y cymunedau tlotaf hynny o gwmpas y byd trwy godi ymwybyddiaeth fyd-eang o'r problemau a gweithio tuag at helpu pobl i helpu eu hunain.

**Oxfam**

Fel Cymorth Cristnogol, cafodd Oxfam hefyd ei sefydlu i ymateb yn ymarferol i'r anghenion hynny ddaeth i fod o ganlyniad i'r Ail Ryfel Byd. Mae Oxfam yn gweithio ar y cynsail sy'n datgan fod gan bob unigolyn, ble bynnag mae'n byw, nifer o hawliau sylfaenol. Mae gan bob unigolyn yr hawl i ofal iechyd, addysg, bywoliaeth wedi ei gwarchod, amgylchfyd diogel (er enghraifft, dwr glân a llety), rhyddid rhag gwahaniaethu (er enghraifft, ar sail rhyw, hil neu grefydd), a'r hawl i'w lais gael ei glywed.

**Masnach Deg**

Mae'r logo Masnach Deg bellach yn label adnabyddus sy'n ymddangos ar wahanol fathau o fwydydd fel ffrwythau, coffi a gwin, ynghyd â chynnyrch nad yw'n fwyd fel defnydd cotwm a blodau. Mae prynu cynnyrch ag arno logo Masnach Deg yn sicrhau bod y prynwr yn prynu cynnyrch sydd yn cydymffurfio â safonau masnach penodol a sylfaenol sydd yn cael eu monitro'n rheolaidd. Ymddangosodd labeli Masnach Deg am y tro cyntaf yn yr Iseldiroedd yn 1988.

**Dysgeidiaeth Gristnogol**

Mae llawer iawn o addysg Gristnogol yn ymwneud â materion sylfaenol sy'n ysbrydoli rhaglenni datblygu. Mae'r themâu canlynol yn berthnasol.

*Athrawiaeth y creu:* Mae Cristnogion yn credu mai Duw greodd y byd a bod Duw yn parhau i ofalu am y byd. Mae athrawiaeth y creu yn ymwneud â pham y mae'r byd yn bod, yn hytrach na sut y mae'n bod. Mae llawer o Gristnogion yn ymwrthod â'r syniad llythrennol bod y creu wedi digwydd mewn chwe diwrnod, fel sy'n cael ei adrodd yn llyfr cyntaf yr Hen Destament (Genesis), ond yn derbyn y syniad bod y byd wedi cael ei greu gan Dduw.

*Athrawiaeth dynoliaeth:* Mae Cristnogion yn gyffredinol yn credu bod dynion a merched wedi cael eu creu ar lun a delw Duw ac felly'n rhannu consyrn Duw am y byd.

*Athrawiaeth stiwardiaeth:* Mae Cristnogion yn gyffredinol yn credu ei bod hi'n gyfrifoldeb arnyn nhw i fod yn stiwardiaid da ar fyd Duw, ac i gydweithio â Duw i sylweddoli llawn botensial y ddaear. Yn unol â'r athrawiaeth hon, mae Duw wedi rhoi i ddynion a merched y cyfrifoldeb o gadw a diogelu adar yr awyr, pysgod y môr, anifeiliaid y tir, a holl adnoddau cyfoethog y ddaear.

*Cymhwysiad ymarferol:* Gellir gweld y math hwn o ddysgeidiaeth Gristnogol yn yr ystod eang o fentrau datblygu sydd yn cael eu cynnal gan Gristnogion ledled y byd, yn cynnwys Cymorth Cristnogol, yr asiantaeth Gatholig ar gyfer datblygu tramor Catholic Agency for Overseas Development (CAFOD), a World Vision, ymysg eraill.

## Gweithgareddau

***Fel y dymunwch i eraill wneud i chi, gwnewch chwithau yr un fath iddynt hwy***

Sut rydych chi'n hoffi i bobl eraill eich trin chi? Beth ydych chi'n ei ystyried sy'n ffordd deg o gael eich trin, a beth sy'n annheg? Sut rydych chi'n teimlo pan fyddwch chi'n cael eich trin yn annheg?

Cysylltwch hyn â'r adnodau o'r Beibl, sydd i'w cael yn y stori:

- Fel y dymunwch i eraill wneud i chi, gwnewch chwithau yr un fath iddynt hwy.
- Os ydych yn caru'r rhai sy'n eich caru chwi, pa ddiolch fydd i chwi?

Yma, yr oedd Iesu'n gofyn i'r bobl wneud peth anodd iawn - sef trin eraill fel yr hoffen nhw gael eu trin, hyd yn oed os nad oedden nhw'n hoffi'r bobl hynny, neu hyd yn oed yn eu hadnabod.

Archwiliwch fasnach byd gyda'r plant. Yn y stori, beth sy'n amlwg ynghylch masnach byd mewn sawl gwlad dlawd? Beth mae masnach deg yn ei wneud i wella'r sefyllfa? Beth allwch chi ei wneud i helpu pobl sydd ddim yn cael eu trin yn deg mewn masnach?

Gwnewch y gwaith ar y daflen 'Llunio posteri' am gynnyrch masnach deg. Dangoswch y posteri mewn lle amlwg i dynnu sylw at annhegwch ym mywydau pobl nad ydym yn eu hadnabod yn bersonol, ac i hysbysu beth sy'n bosib ei wneud i helpu.

***Gofalu am eraill***

Gan ddefnyddio'r rhyngrwyd, chwiliwch am ragor o wybodaeth am waith asiantaethau cymorth Cristnogol (er enghraifft, Cymorth Cristnogol neu CAFOD). Byddai'r cwestiynau canlynol yn helpu i roi canolbwynt i'r gweithgaredd:

- Oes datganiad o genhadaeth gan yr asiantaeth cymorth sy'n egluro'r hyn mae'n ceisio'i wneud?
- Enwch y prosiectau y mae'r asiantaeth cymorth yn ymwneud â nhw.
- Ym mha rannau o'r byd y mae'r asiantaeth cymorth yn gweithio?

Ym mha ffordd y gall pobl gefnogi'r asiantaeth cymorth?

Fe allech chi roi her i rai o'r plant ateb cwestiwn pellach:

- Oes unrhyw beth ar y wefan sy'n pwyntio at gefndir crefyddol yr asiantaeth cymorth (Cristnogaeth)?

# Pennod 5 Dathlu'r Cynhaeaf

## Diolchgarwch am y cynhaeaf

Mae gwasanaethau Diolchgarwch am y cynhaeaf yn parhau i chwarae rhan bwysig ym mywyd yr eglwysi yng Nghymru a Lloegr, ar draws yr enwadau, ac mewn trefi yn ogystal â phentrefi. Nid yw Diolchgarwch am y Cynhaeaf yn rhan o'r Flwyddyn Eglwysig yn yr un modd ag yw'r Nadolig a'r Pasg, ond mae'r gwasanaethau hyn yn datgan rhai pethau pwysig am gred ac ymarfer Cristnogaeth.

Yn gyffredinol, mae Cristnogion yn credu bod Duw wedi creu'r byd ac wedi sefydlu'r patrwm o hau a medi. Yn gyffredinol, mae Cristnogion yn credu bod y cynhaeaf yn symbol o'r cydweithrediad agos rhwng prosesau natur, gwaith dynion a merched, a gweithgaredd parhaus Duw. Yn gyffredinol, mae Cristnogion yn credu bod ganddyn nhw gyfrifoldeb i rannu rhoddion y cynhaeaf gyda holl bobl Dduw ar draws y byd. Yn gyffredinol, mae Cristnogion eisiau rhoi diolch i Dduw am roddion y cynhaeaf, a gofyn am fendith Duw ar ffrwythlondeb parhaol y pridd.

## Cysylltu'r cynhaeaf â'r cymun

Yn Eglwys y plwyf, Eglwys Dewi Sant, mae Mrs Davies yn dangos rhai cysylltiadau clir rhwng cadw'r Diolchgarwch am y Cynhaeaf a'r patrwm rheolaidd o wasanaethau'r Cymun. Mae'r cysylltiadau hyn yn dangos yn glir y mewnwelediad pwysig hwnnw sydd yn nodweddu diwinyddiaeth Gatholig a sacramentaidd Mrs Davies. Ym mhennod un fe ddaethom i wybod am linellau cyntaf y gweddïau roedd Mrs Davies yn eu hoffrymu pan oedd hi'n cymryd y bara ac yn arllwys y gwin. Mae'r gweddïau hyn yn sôn wedyn am y cyswllt clir rhwng rhoddion Duw, ffrwythau'r ddaear a gwaith dwylo dynol. Gan gymryd y bara, mae Mrs Davies yn gweddïo:

> Bendigedig wyt ti, Arglwydd Dduw yr holl greadigaeth:
> Trwy dy ddaioni y mae gennym y bara hwn i'w offrymu,
> rhodd y ddaear a gwaith dwylo dynol.

A chan gymryd y gwin, mae Mrs Davies yn gweddïo:

> Bendigedig wyt ti, Arglwydd Dduw yr holl greadigaeth:
> Trwy dy ddaioni y mae gennym y gwin hwn i'w offrymu,
> ffrwyth y winwydden a gwaith dwylo dynol.

## Diwrnod Prosiect y Cynhaeaf

Mae Eglwys y plwyf, Eglwys Dewi Sant, wedi trefnu dydd Sadwrn cyfan ar gyfer plant a phobl ifanc er mwyn archwilio'r cyswllt rhwng Diolchgarwch am y Cynhaeaf a'r gwasanaeth cymun, trwy ganolbwyntio ar y bara a'r gwin. Cafodd y diwrnod prosiect ei gynllunio er mwyn esbonio rhai o egwyddorion diwinyddiaeth Gatholig sacramentaidd.

Bu'r ymweliad â'r archfarchnad leol yn fodd o amlygu'r gwahanol fathau o fara oedd ar gael dros y byd; y baguette hir o Ffrainc, y bara ciabatta o'r Eidal, a'r bara naan o'r India. Pan fydd Cristnogion yn cymryd bara yn y gwasanaeth cymun, maen nhw'n ymuno â holl bobl Dduw ar draws y byd.

Bu'r ymweliad â'r fferm yn fodd o amlygu'r prosesau cymhleth sydd ynghudd mewn bag o flawd. Dyma stori natur, yn cynnwys yr had, y pridd, y maethynnau, yr haul a'r glaw. Dyma stori am lafur dynol, yn cynnwys y bobl a wnaeth y tractor, puro'r disel, cynaeafu'r ŷd, a malu'r ŷd yn flawd. Pan fydd Cristnogion yn cymryd bara yn y gwasanaeth cymun, maen nhw'n rhoi diolch i Dduw am yr holl brosesau hyn o fyd natur, ac am yr holl weithgareddau dynol yma.

Wrth gael y profiad o bobi bara, cafodd Rhys a Sara fod yn rhan o'r prosesau rhyfeddol o newid sy'n digwydd. Unwaith yr oedd y blawd wedi ei gymysgu gyda'r burum a'r dŵr, fe ddechreuodd y toes ffurfio a chwyddo. Unwaith roedd y toes wedi ei grasu yn y popty neu'r ffwrn, roedd y bara'n dorth gadarn gyda chrystyn arni.

Yn y gwasanaeth cymun ar y Sul, fe welodd Rhys a Sara y bara yr oedden nhw wedi ei wneud yn cael ei gymryd gan Mrs Davies, yr offeiriad. Fe wnaethon nhw ymuno â hi i roi diolch i Dduw am ffrwythau'r ddaear ac am waith dwylo dynol. Yna, yn y weddi fawr o ddiolchgarwch a offrymodd Mrs Davies dros y bara a'r gwin, clywodd Rhys a Sara am broses fawr arall o newid a thrawsffurfiad. Mae Cristnogion yn credu bod y bara a'r gwin yn dod yn gorff a gwaed Crist iddyn nhw yn y gwasanaeth cymun.

## Addurno'r eglwys ar gyfer y cynhaeaf

Ar gyfer y gwasanaeth Diolchgarwch am y Cynhaeaf, bydd llawer o eglwysi yn mynd i drafferth fawr i addurno'r adeilad gydag arwyddion o gynhaeaf o leoedd dros y byd. Yn eglwys Dewi Sant, roedd arddangosfeydd arbennig wedi eu gosod o gwmpas yr allor ac o gwmpas y fedyddfaen. Mae'r allor yn bwysig oherwydd arni y caiff y sacrament o gymun ei weinyddu. Mae'r fedyddfaen yn bwysig oherwydd ynddi y caiff y sacrament o fedydd ei weinyddu. Ochr yn ochr â'r afalau a'r gellyg a gafodd eu tyfu yn eu gardd gefn, roedd y gynulleidfa yn Dewi Sant wedi casglu ac arddangos, o gwmpas yr allor, duniau o eirin gwlanog, grawnffrwyth ac afalau pîn oedd wedi tyfu mewn gwledydd tramor. Ochr yn ochr â'r tatws, moron, pannas a'r cennin a oedd wedi eu tyfu ar eu rhandiroedd, roedd cynulleidfa Dewi Sant wedi casglu ac arddangos o amgylch y fedyddfaen, lysiau

oedd wedi tyfu mewn gwahanol rannau o'r byd.

I'r bobl yn eglwys Dewi Sant, roedd adeg Diolchgarwch am y Cynhaeaf yn amser nid yn unig i wneud cyswllt gyda phobl ledled y byd, ond hefyd yn fodd i wneud cyswllt gyda phobl o bob oed. Dyna paham y gwnaethon nhw godi arddangosfa yng Nghapel Mair (y capel ar yr ystlys sydd wedi ei gysegru i'r Forwyn Fair Fendigaid) yn cynnwys rhawiau, hofiau, a phladuriau o'r dyddiau a fu, yn ogystal ag erydr ac offer chwistrellu sy'n cael eu defnyddio ar ffermydd heddiw.

**Rhannu rhoddion Duw**

Mae adeg Diolchgarwch am y Cynhaeaf yn amser hefyd pryd y bydd Cristnogion yn dangos eu consyrn a'u gofal am y newynog a'r tlodion ar draws y byd. Yn aml bydd y rhoddion sydd yn cael eu harddangos yn yr eglwys yn cael eu dosbarthu i elusen leol, neu i unigolion sy'n eu teilyngu yn y gymuned leol. Yn aml, gwneir casgliad arbennig i gefnogi asiantaethau datblygu Cristnogol ledled y byd.

## Gweithgareddau

***Ein heglwys leol***

Trefnwch ymweliad â'ch eglwys leol ar adeg y Diolchgarwch am y Cynhaeaf, a sylwch sut mae'r gynulleidfa yno'r dathlu'r Diolchgarwch am y Cynhaeaf. Trefnwch fod offeiriad y plwyf yn bresennol, a pharatowch restr gytunedig o gwestiynau pwysig i'w gofyn. Ym mha ffordd y mae'r dathliadau'n debyg i'r hyn sy'n cael eu disgrifio yn y llyfr stori, a sut maen nhw'n wahanol?

***Archwilio bwyd***

Mae'n hawdd i ni gymryd y bwyd y byddwn ni'n ei fwyta'n ganiataol, heb feddwl am ei darddiad. Gofynnwch i'r plant enwi hoff gynnyrch bwyd neu gynnyrch bwyd cyffredin. Trafodwch sut mae'r cynnyrch hwnnw'n cael ei baratoi, gan restru'r cynhwysion dan y pennawd 'ffrwyth y ddaear' a'r gwaith o'i baratoi o dan y pennawd 'gwaith dwylo dynol'. Ar ôl gwneud hyn fel dosbarth, rhannwch y dosbarth yn grwpiau bach i wneud yr un peth ar gyfer eitemau eraill. Fe allech chi ddarparu resipis i helpu, ar gyfer plant sydd ag ychydig o brofiad o goginio. Rhowch gyfle i bob grŵp gyflwyno'u darganfyddiadau i'r dosbarth cyfan.

Yn unigol, neu mewn parau, cwblhewch y daflen waith 'Archwilio'ch cinio'. Fe allai'r gwaith archwilio fod yn sail i arddangosfa. Defnyddiwch y dechneg sy'n cael ei hegluro yn y daflen waith 'Gwneud cerdyn codi allan'. Fe fyddai'n bosib tynnu llun un cynnyrch ar y rhan sy'n codi allan. Gallai'r rhan fertigol wedyn gynnwys lluniau sy'n dangos 'ffrwyth y ddaear' a'r rhan lorweddol gynnwys lluniau sy'n dangos 'gwaith dwylo dynol'.

***Mathau o fara***

Un bwyd sylfaenol yw bara. Yn y stori, mae Rhys a Tomos yn ymweld â'r archfarchnad leol er mwyn dod i wybod mwy am fara. Dyma enghraifft dda o'r dyfeisgarwch a'r creadigrwydd sy'n ymwneud â 'gwaith dwylo dynol'. Er bod y cynhwysion sylfaenol yr un peth, mae'r math o fara'n amrywio o wlad i wlad, ac yn amrywio'r dyddiau hyn yn ôl dewis y bobl.

Rhowch bum munud i'r plant, mewn grwpiau bach, restru'r holl wahanol fathau o fara y gallan nhw feddwl amdanyn nhw. Galwch bawb ynghyd eto a rhannu'r canlyniadau â'i gilydd i lunio rhestr dosbarth. Mae'n bosib i'r plant drafod y rhestr a dweud pa fathau y maen nhw'n hoff ohonyn nhw, a pham, ond cofiwch mai trafodaeth yw hon lle mae'r atebion yn dangos hoffter yn hytrach na beth sydd orau neu ddim cystal. Gall ymchwiliad sydyn ar y rhyngrwyd ddangos mathau o fara nad yw'r plant wedi sôn amdanyn nhw, efallai. Os oes angen help, fe allech chi awgrymu eu bod yn defnyddio'r gair "bread", "types of bread" neu "pictures of bread" wrth chwilio. (Gofalwch bod y plant yn deall beth sy'n digwydd wrth ddefnyddio dyfynodau dwbl wrth chwilio, ac yn deall yr angen i sganio testun er mwyn cael gwybodaeth am wahanol fathau o fara, yn hytrach na bod angen darllen pob gair.) Ychwanegwch y rhain at eich rhestr dosbarth.

Craswch eich bara eich hun gan ddefnyddio'r daflen 'Gwneud eich bara eich hun' neu resipi y byddwch chi wedi dod o hyd iddo wrth ymchwilio.

***Tyfu bwyd***

Rhowch wahoddiad i arddwr brwd ddod i siarad â'r dosbarth am ei waith, neu ei gwaith, yn tyfu bwyd mewn gardd neu randir. Ar ôl y sgwrs, rhowch y plant mewn grwpiau i feddwl am gwestiynau i'w gofyn i'r garddwr. Os nad yw'r plant yn sicr o gwestiynau, un awgrym yw meddwl am gwestiynau'n dechrau â 'beth', 'pryd', 'ble', 'pam' a 'sut'. Efallai yr hoffech chi gadw cysylltiad â'r garddwr wedyn, a datblygu bwrdd arddangos yn un rhan o'r ystafell gyda disgrifiadau o fis i fis o'r gwaith sy'n cael ei wneud, a'r planhigion sy'n tyfu.

# Geiriau Allweddol


| | |
|---|---|
| ***gweision allor*** | rhai sy'n cario canhwyllau mewn gorymdaith |
| ***alb*** | gwisg wen laes a wisgir o dan y casul |
| ***allor*** | bwrdd yn nhu blaen yr eglwys lle mae'r offeiriad yn gweinyddu'r cymun |
| ***bedydd*** | sacrament Cristnogol o dderbyn, yn defnyddio dŵr |
| ***Beibl*** | casgliad o lyfrau o arwyddocâd arbennig i Gristnogion |
| ***bendith*** | gweddi, yn datgan ewyllys da Duw |
| ***casog*** | gwisg ddu laes nodedig a wisgir gan offeiriaid |
| ***cwpan cymun*** | cwpan arbennig (arian, fel arfer) sy'n cael ei defnyddio i ddal gwin cymun |
| ***casul*** | urddwisg ar ffurf toga a wisgir gan offeiriad sy'n gweinyddu'r cymun |
| ***Nadolig*** | gŵyl yn dathlu genedigaeth Iesu |
| ***gwasanaeth* cymun** | caiff bara a gwin eu hoffrymu i Dduw a'i fwyta a'i yfed fel corff a gwaed Crist |
| **coler glerigol** | coler wen nodedig a wisgir gan offeiriaid |
| **croes gludydd** | un sy'n cario'r groes ar flaen gorymdaith |
| ***bedyddfaen*** | basn mawr i ddal dŵr ar gyfer bedydd |
| ***Efengyl*** | y pedwar llyfr (Mathew, Marc, Luc, ac Ioan) yn adrodd hanes bywyd, geiriau a gwaith Iesu |
| ***Diolchgarwch am y Cynhaeaf*** | dathliad i ddiolch i Dduw am ffrwythau'r ddaear |
| ***emyn*** | caneuon sy'n cael eu canu wrth addoli |
| ***Capel Mair*** | ystafell ochr yn yr eglwys gydag allor wedi'i chysegru i'r Forwyn Fair, mam Iesu |
| ***darllenfa*** | stand arbennig lle caiff y Beibl ei ddarllen |
| ***offeren*** | enw arall am wasanaeth cymun |
| ***organ*** | mae'r organ bib yn creu cerddoriaeth eglwysig nodedig |
| ***plwyf*** | ardal ddaearyddol a wasanaethir gan yr eglwys Anglicanaidd |
| ***seddau*** | meinciau pren hir |
| ***offeiriad*** | un sydd wedi'i awdurdodi i weinyddu'r cymun |
| ***sacrament*** | arwydd allanol yn symboleiddio gweithgaredd Duw |
| ***gwenwisg*** | gwisg wen laes a wisgir dros gasog |

# Ysgrifennu stori

Dychmygwch eich bod wedi ymweld ag eglwys y plwyf gyda ffrind sy'n addoli yno. Ysgrifennwch stori am eich ymweliad, gan roi manylion am bob rhan welsoch chi, a'r pethau oedd yno. Bydd y lluniau a'r disgrifiadau yma yn eich helpu.


### *cyntedd*

Lle i sychu'ch traed a thawelu yw'r cyntedd, cyn mynd i mewn i'r eglwys i addoli.




### *clochdwr*

Caiff y clychau eu canu i alw'r bobl i addoli. Mae'r clychau'n uchel yn y tŵr ac mae'r rhaffau hir sydd ynghlwm ynddyn nhw, yn cael eu tynnu. Bydd pawb o gwmpas yn gallu clywed y clychau'n canu.




### *organ*

Mae cerddoriaeth yn rhan bwysig o'r addoliad. Yn aml, fe fydd y gerddoriaeth yn cael ei chwarae ar organ bib fawr.




### *seddau*

Y tu mewn i'r rhan fwyaf o eglwysi mae seddau pren hir, i'r bobl eistedd arnyn nhw yn ystod y gwasanaeth. Mae rheseli ar y seddau, i bobl osod eu llyfrau gwasanaeth a'u llyfrau emynau ynddyn nhw.




### *croes orymdaith*

Ar ddechrau'r gwasanaeth, bydd yr offeiriad a'r côr yn gorymdeithio i mewn. Ar flaen yr orymdaith bydd y croesgludwr, yn cario croes dal. Mae'r groes yn y golwg yn ystod y gwasanaeth.




### *darllenfa*

Caiff y Beibl ei gadw ar stand arbennig. Fe allai rhan uchaf y ddarllenfa fod ar ffurf eryr, gyda'i adenydd ar led, i gario gair Duw i'r byd.



### *pulpud*

Yn ystod y gwasanaeth, bydd yr offeiriad neu'r darllenydd yn addysgu'r gynulleidfa am y ffydd Gristnogol. Bydd yn mynd i fyny i'r pulpud uchel, lle mae pawb yn gallu ei weld a'i glywed.




### *allor*

Yn nhu blaen yr eglwys y mae'r allor, lle mae'r bobl yn mynd i gael cymun. Ar yr allor, mae canhwyllau a chroes.



### *awmbri*

Yn ymyl yr allor, mae lle arbennig, lle mae'r sacramentau cysegredig o fara a gwin yn cael eu cadw. Mae golau bach uwch ben yr awmbri yn symbol o Iesu, Goleuni'r byd.



# Gwneud set lestri cymun


Fel arwydd o barch, ac i ddangos y lle arbennig sy'n cael ei roi i gymun yn eglwys y plwyf, mae'r gwpan cymun a'r plât sy'n cael eu defnyddio wedi'u gwneud o arian, ran amlaf.


## Fe fydd arnoch chi angen

plât cerdyn
ffoil
siswrn
cwpan blastig neu gwpan win blastig


## Beth i'w wneud

1. Torrwch ddarn o ffoil, tua dwywaith maint y plât. Gwasgwch y ffoli yn ysgafn fel pêl i greu crychau yn y ffoil, a'i lyfnhau wedyn. Plygwch y ffoil dros y plât gan ei orchuddio'n gyfan gwbl. (Fe fydd y crychau'n rhoi effaith hynafol i'r plât, ac yn cyd-fynd â'r crychau fydd ar y gwpan cymun.)





2. Torrwch ddarn o ffoil ychydig hirach na'r gwpan. Gosodwch hwn o gwmpas tu mewn y gwpan, gan ei blygu tua 1cm dros yr ymyl.




3. Torrwch ddarn arall o ffoil a'i osod o gwmpas tu allan y gwpan, gan blygu tua 1cm dros yr ymyl, a'i droi i mewn i'r gwpan. Os ydych chi'n gorchuddio cwpan win blastig, gwasgwch y ffoil yn gadarn am goes y gwpan. Defnyddiwch ddarn o ffoil ar wahân i orchuddio troed y gwpan.


# Gwisgo am Mrs Davies

Offeiriad yn eglwys y plwyf yw Mrs Davies. Mae dillad arbennig ganddi hi i'w gwisgo ar gyfer rannau o'r gwaith.


## Beth i'w wneud

1. Llungopïwch y dudalen yma ar gerdyn tenau.
2. Lliwiwch y llun o Mrs Davies a'i dillad.
3. Torrwch nhw allan.
4. Meddyliwch am wahanol bethau y mae Mrs Davies yn eu gwneud, a gwisgwch y dillad priodol amdani. Plygwch ar hyd y llinell doredig sydd bob ochr i'w thraed, i wneud iddi sefyll.






Mae'r goler glerigol yn nodi mai offeiriad yw Mrs Davies. Mae'n gallu gwisgo'r goler wen gyda chrys du neu grys lliw. Dyma beth fydd hi'n ei wisgo i fynd i gyfarfodydd neu i fynd i ymweld â phobl, neu pan fydd hi'n gweithio o gwmpas yregl-wys.



Fe fydd Mrs Davies yn gwisgo'r gasog ddu yma pan fydd hi mewn angladd. Weithiau fe fydd hi'n gwisgo'r gasog i gerdded o gwmpas y dref.



Pan fydd Mrs Davies yn gweinyddu'r cymun, mae'n gwisgo casul euraid dros alb gwyn.

# Gwneud cerdyn codi allan

Y Nadolig yw'r adeg o'r flwyddyn i ddathlu geni Iesu. Ar yr adeg yma, fe fydd pobl yn anfon cardiau at eu perthnasau a'u ffrindiau. Fe fyddan nhw hefyd yn rhoi anrhegion, i gofio am yr anrhegion roddodd y doethion i Iesu, ac i gofio mai anrheg i ni gan Dduw yw Iesu. Fe fydd llawer o Gristnogion yn dewis anfon cardiau sydd â llun y Nadolig cyntaf arnyn nhw, cardiau sy'n darlunio hanes geni Iesu a'r bugeiliaid a'r doethion yn dod i'w weld.


## Fe fydd arnoch chi angen


| | |
|---|---|
| papur sgrap | ½ tudalen o gerdyn A4 |
| siswrn | pensiliau |


## Beth i'w wneud


Rhowch gynnig ar gamau 1- 4 ar bapur sgrap cyn gwneud y gwaith ar y cerdyn.


1. Plygwch y cerdyn yn ei hanner.
2. Gwnewch ddau doriad o'r plygiad, bron i ganol y ddalen. (Gofalwch dorri o'r plygiad, nid o'r ymyl agored.)
3. Plygwch y rhan rydych chi wedi'i dorri drosodd at yr ymyl a'i blygu'n gadarn, yna ei blygu'n ôl.
4. Agorwch y cerdyn. Cadwch y prif blygiad dyffryn (yn pwyntio i mewn) ar y ddau ben, ond codwch y rhan ganol sydd wedi'i dorri, i wneud plygiad mynydd (yn pwyntio allan).
5. Addurnwch y cerdyn. Fe allech chi dynnu llun golygfa ar y rhan sydd heb ei dorri, a thynnu llun Mair, Joseff a Iesu ar y rhan sy'n codi allan.

1.





2.


3.


4.


5.



Arbrofwch gyda gwahanol siapiau sy'n codi allan. Gwnewch gromliniau onglog, neu doriadau gwahanol siâp. Fe allech chi dorri ail ran sy'n codi, trwy dorri eto i'r plygiad ar y blaen.

# Adrodd Stori'r Nadolig

Y Nadolig yw'r adeg o'r flwyddyn pan fydd Cristnogion yn dathlu geni Iesu. Mae stori'r Nadolig yn cael ei hadrodd mewn geiriau, mewn lluniau, ac ar gân. Dyma chwe rhan o stori'r Nadolig. Dywedwch chi'r hanes yn eich geiriau eich hun.














Wedi i chi orffen, fe allech chi dorri'r blychau allan a newid eu trefn. Rhowch nhw i'ch ffrind wedyn, i'w gosod yn y drefn iawn eto.

# Meddwl am y Beibl


Sut mae'r Beibl yn rhan o fywyd bob dydd Tomos a Bethan a'u teulu?

Er mwyn gallu rhoi ateb da i'r cwestiwn yma, fe fydd angen i chi fod yn dditectif a chwilio am y cliwiau ym mhennod 3 o stori *Archwilio Eglwys y Plwyf.* Atebwch y cwestiynau yma i'ch helpu chi ddod o hyd i'r cliwiau.

1. Enwch dri lle yng nghartref teulu Tomos a Bethan lle byddech chi'n dod o hyd i Feibl.



2. Enwch dri digwyddiad yn ystod yr wythnos pan fydd y Beibl yn cael ei ddefnyddio.



3. Ysgrifennwch beth ddywedodd Tomos am sut mae darllen y Beibl yn helpu Cristnogion.

4. Ysgrifennwch beth ddywedodd Mrs Davies am Gristnogion yn darllen y Beibl gartref.

5. Sut mae Eglwys Dewi Sant yn dangos bod y Beibl yn bwysig?

6. Ar ôl darllen rhan o'r Beibl yn yr eglwys, beth sy'n cael ei ddweud bob tro?

7. Beth wnaeth Mrs Davies cyn darllen o Efengyl Marc?

Nawr, atebwch y prif gwestiwn ar ddalen arall o bapur. Sut mae'r Beibl yn rhan o fywyd bob dydd Tomos a Bethan a'u teulu?

# Creu salm o foliant

Mae Llyfr y Salmau yn y Beibl yn atgoffa ei ddarllenwyr o fawredd Duw. Mae rhai o'r salmau yn defnyddio delweddau o'r byd o'n cwmpas. Darllenwch adnodau cyntaf Salm 104 yma. Cewch weddill y Salm yn y Beibl.

**Salm 104**

Fy enaid, bendithia'r Arglwydd.
O Arglwydd fy Nuw, mawr iawn wyt ti;
    yr wyt wedi dy wisgo ag ysblander ac anrhydedd,
    a'th orchuddio â goleuni fel mantell.
Yr wyt yn taenu'r nefoedd fel pabell,
    yn gosod tulathau dy balas ar y dyfroedd,
yn cymryd y cymylau'n gerbyd,
    yn marchogaeth ar adenydd y gwynt,
yn gwneud y gwyntoedd yn negeswyr,
    a'r fflamau tân yn weision.
    (Y Beibl Cymraeg Newydd, argraffiad diwygiedig)

Tynnwch lun yr olygfa sy'n dod i'ch meddwl wrth i chi ddarllen y salm yma o foliant i fawredd Duw.


Meddyliwch am ran o'r byd rydych chi'n ei ystyried yn hardd. Dewiswch rywbeth naturiol yn hytrach na rhywbeth sydd wedi'i wneud gan bobl. Tynnwch lun ohono. Yna, ddefnyddiwch eich llun i'ch helpu chi ysgrifennu salm o foliant i Dduw.


# Ysgrifennu gweddïau

Mae nifer fawr iawn o bobl yn ymwneud â chynhyrchu ein bwyd. Mae rhai yn byw mewn tlodi. Er eu bod yn cynhyrchu bwyd i ni ei fwyta (a'i daflu weithiau), efallai does ganddyn nhw ddim digon i'w fwyta eu hunain.

O fewn i'r tri amlinelliad yma, ysgrifennwch weddïau y gallai Tomos a Bethan eu dweud. Fe allech chi ysgrifennu gweddi i Tomos a Bethan yn diolch i Dduw am fwyd, neu yn diolch i Dduw am waith y bobl sy'n paratoi ein bwyd. Neu, efallai y gallech chi ysgrifennu gweddi am fywyd y bobl sy'n dod â'r bwyd yma i chi.







# Llunio posteri

Gweithiwch fel grŵp i wneud posteri sy'n annog pobl i brynu cynnyrch masnach deg.

## 1. Ymchwil

Chwiliwch pa gynnyrch masnach deg sydd ar gael yn eich ardal chi.

- Edrychwch ar yr archfarchnadoedd sydd ar-lein, a chwiliwch am 'masnach deg' neu 'fair trade'. (Os ydych chi'n gweithio gyda ffrindiau, fe allai gwahanol rai ohonoch chi ymchwilio i wahanol archfarchnadoedd lleol.)
- Cysylltwch â siopau elusen lleol i weld beth maen nhw'n ei werthu.
- Cymharwch brisiau cynnyrch masnach deg â phrisiau'r pethau sy'n cael eu masnachu'n arferol.
- Cymharwch eich canfyddiadau ag atebion eich ffrindiau, i weld pa siop sydd â'r dewis gorau.

| llefydd i'w hymchwilio | yr un i wneud y gwaith |
|---|---|
| | |

## 2. Dylunio

Dyma rai pethau i chi eu hystyried wrth i chi ddylunio'r poster.

- Cynulleidfa: ydych chi'n ei ddylunio ar gyfer pobl o'ch oedran chi neu ar gyfer yr oedolion yn eich bywyd?
- Maint: ydych chi eisiau poster mawr, neu daflen lai ar gyfer ei gosod ar eich rhewgell neu yn eich car i'ch atgoffa chi bob tro y byddwch chi'n mynd i siopa?
- Dylunio clir: cofiwch mai ychydig eiriau yn unig rydych chi eu hangen, a'r rheini'n ddigon mawr i'w gweld o bellter.
- Lliwiau sy'n dal y llygad: dewiswch liwiau fydd yn gwneud i bobl sylwi ar eich poster.

Cynulleidfa: ____________________ Maint: ____________________

Syniadau dylunio

## 3. Dosbarthu

Ceisiwch arddangos eich posteri er mwyn cael yr effaith orau.

# Gwneud eich bara eich hun


Yn y stori *Archwilio Eglwys y Plwyf*, mae Rhys a Tomos yn gwneud bara ar gyfer y gwasanaeth cymun. Mae'r bara'n cynrychioli ffrwythau'r ddaear a gwaith dwylo dynol.

## Fe fydd arnoch chi angen

650g blawd bara gwyn cryf
1 llond llwy de o siwgr
1 pecyn bach o furum sych
2 lond llwy de o halen
1 llond llwy fwrdd o olew llysiau
400ml o ddŵr cynnes

## Beth i'w wneud

1. Golchwch eich dwylo.
2. Cymysgwch y blawd, halen, siwgr, burum a'r olew.
3. Paratowch ddŵr cynnes trwy gymysgu un rhan o dair o ddŵr berwedig a dwy ran o dair o ddŵr oer. Ychwanegwch hwn at y gymysgedd blawd, a'i gymysgu'n does meddal.
4. Tylinwch y toes am 10 munud ar arwynebedd glân, â blawd arno.
5. Rhannwch y toes yn ddarnau tua 50-75g, a'u siapio'n rholiau. Gosodwch y rholiau ar duniau crasu wedi'u hiro. (Neu, fe allech chi rannu'r toes i wneud dwy dorth, gan eu rhoi mewn dau dun torth 450g.)
6. Gorchuddiwch y rholiau a'u gadael mewn lle cynnes am tua 30 munud, nes eu bod wedi dyblu o ran maint.
7. Rhowch y tuniau crasu yng nghanol y ffwrn neu'r popty, sydd wedi'i dwymo o flaen llaw, ar 230°C (450°F neu farc nwy 8). Eu crasu am 15 munud i roliau bara, neu 30-35 munud i dorthau.
8. Tynnwch y bara o'r ffwrn neu'r popty, a'u gadael i oeri ar rac wifren.



# Archwilio'ch cinio

Mae'r bwyd rydyn ni'n ei fwyta yn gymysgiad o 'ffrwythau'r ddaear' (rhodd Duw) a 'gwaith dwylo dynol'. Gyda rhai o'ch ffrindiau, archwiliwch ginio arferol i sylwi ar y ddau beth yma, a'u nodi. (Daliwch ymlaen ar dudalen arall os bydd angen.)

1. Ysgrifennwch enw'r holl fwydydd sydd yn eich pecyn bwyd neu yn eich cinio ysgol.
2. Ysgrifennwch enw'r holl gynhwysion y gallwch chi eu nodi, sydd yn y bwydydd.
3. Nodwch o ba un o 'ffrwythau'r ddaear' y daeth yn wreiddiol (e.e. daw caws o lefrith).
4. Nodwch pa 'waith dwylo dynol' sydd wedi bod yn ymwneud â'i baratoi.



## Fy nghinio

| Cynhwysion | ffrwythau'r ddaear | gwaith dwylo dynol |
|---|---|---|
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |

# Creu dawns

Crëwch ddawns am un math arbennig o fwyd rydych chi'n ei fwynhau. Fe ddylai'r ddawns ddangos y camau sydd yn rhan o'r broses o dyfu'r cynhwysion sylfaenol a'u cyfuno i gynhyrchu'r bwyd.

## 1. Dewis y bwyd

Meddyliwch am rywbeth sylfaenol fel bara, neu rywbeth arbennig fel siocled. Er mwyn i'r ddawns fod yn ddiddorol, dewiswch fwyd sydd â sawl cam yn y broses o'i gynhyrchu.

Y bwyd rydyn ni'n ei ddewis: ______________________________

## 2. Nodi'r camau yn y broses o'i gynhyrchu

Meddyliwch am yr holl bobl a'r holl gamau sy'n rhan o'r broses o gynhyrchu'r bwyd yma. Fe allai hyn gynnwys plannu'r cnydau, bwydo a godro gwartheg, cymysgu cynhwysion ac ati.

Y camau yn y broses:

______________________________

______________________________

______________________________

______________________________

______________________________

______________________________

## 3. Dewis y gerddoriaeth

Gwrandewch ar wahanol ddarnau o gerddoriaeth er mwyn dod o hyd i ddarn sy'n cyd-fynd orau â'ch syniad chi o'r gwaith sy'n cael ei wneud.

## 4. Arbrofi gyda ffyrdd o gyfleu'r camau yma

Rhowch gynnig ar wahanol symudiadau, gydag unigolion neu grwpiau, i gyfleu'r camau yma yn y broses o gynhyrchu'r bwyd. Dewiswch pwy sy'n mynd i bortreadu pob rhan.

# Fy Ngeiriadur

Fe fyddwch chi'n dod ar draws nifer o eiriau newydd yn y stori *Archwilio Eglwys y Plwyf*. Cadwch gofnod o'r geiriau newydd, ynghyd â'u hystyron.

***casog*** dilledyn llaes du, sy'n cael ei wisgo gan yr offeiriad ac aelodau'r côr

***croesgludwr*** aelod o'r côr sy'n cario'r groes ar flaen yr orymdaith yn ystod gwasanaeth

***gwenwisg*** gwisg wen tri chwarter hyd, sy'n cael ei gwisgo dros y gasog gan offeiriaid ac aelodau'r côr.

# Darganfod pethau am eich dosbarth a masnach deg

## 1. Llunio holiadur

Defnyddiodd plant dosbarth Rhys a Tomos holiadur papur a phensil yn yr archfarchnad. Fe allwch chi ddefnyddio holiadur cyfrifiadurol i gasglu gwybodaeth am gynnych masnach deg ym mywydau plant eich dosbarth, neu blant sawl dosbarth.

Yn gyntaf, fe fydd angen i chi lunio holiadur syml. Dyma rai awgrymiadau. Fe allwch chi newid y rhain fel eu bod yn addas ar eich cyfer, ac ychwanegu eich cwestiynau eich hun. (Bydd angen i'ch dewis o gwestiynau gyd-fynd â beth yr hoffech chi ddod i wybod amdano yng ngham 3.)

- Enw (neu rhowch rif i bob plentyn, os ydych chi eisiau i'r holiadur fod yn gyfrinachol
- Rhyw (gwryw neu fenyw)
- Dosbarth
- Ydych chi'n defnyddio cynnyrch masnach deg?
- Pa gynnyrch masnach deg ydych chi wedi'u profi?
- Ydych chi wedi blasu siocled masnach deg?
- Fyddwch chi'n chwilio am gynnyrch masnach deg yn y dyfodol?



## 2. Creu cronfa ddata

Dewiswch raglen gyfrifiadurol y mae'n bosib llunio cronfa ddata arni. Gosodwch y meysydd gyda'r cwestiynau rydych chi wedi'u dewis. Gwahoddwch y plant i ddod fesul un i gofnodi eu hatebion.

## 3. Defnyddio'r gronfa ddata

Pan fydd y gronfa ddata wedi'i chwblhau, fe allwch chi ei defnyddio i ddod o hyd i wybodaeth. Meddyliwch am bethau yr hoffech chi wybod, ac ewch ati i chwilio. Dyma rai enghreifftiau.

- Faint o ddisgyblion sy'n defnyddio cynnyrch masnach deg? Pa ffracsiwn yw hyn o gyfanswm y gronfa ddata?
- Oes mwy o fechgyn na merched wedi blasu siocled masnach deg?
- Oes mwy o blant yn Blwyddyn 3 neu Blwyddyn 4 fydd yn chwilio am gynnyrch masnach deg yn y dyfodol?

*Fe hoffwn i ddod o hyd i'r wybodaeth yma*

______________________________

______________________________

______________________________

______________________________

# Crefyddau'r Byd Heddiw


## *llawlyfr athrawon*


Mae'r llawlyfr athrawon yn rhan o Gyfres Crefyddau'r Byd Heddiw, sy'n cynnwys saith llyfr stori ar gyfer plant 8 -11 mlwydd oed. Yn y gyfres mae'r disgyblion a'r athrawon yn cael eu gwahodd i ymuno â dau blentyn o'r enw Rhys a Sara sy'n dysgu mwy am eu ffrindiau o saith traddodiad crefyddol:


- Eglwys Anglicanaidd
- Bwdhaeth
- Eglwys Uniongred Ddwyreiniol
- Hindŵaeth
- Islam
- Iddewiaeth
- Sikhiaeth

Mae'r llawlyfr athrawon yn rhoi:

- gwybodaeth gefndirol gynhwysfawr am y saith traddodiad crefyddol
- gweithgareddau dosbarth
- taflenni gwaith y mae'n bosib eu llungopïo
- rhestr geiriau allweddol



















Bear Lands Publishing